WG35.S 172

*Maen o Goffadwriaeth;*

SEF

# MARWNAD,

AR FARWOLAETH

## ROBERT ROBERTS,

Yr hwn a hunodd gyd â'i Dadau, Rhagfyr 28ain, 1802; yn y 40 Flwyddyn o'i Oedran; ac a gladdwyd yn lle Beddrod CLYNNOG, o fewn i Sîr GAERNARFON.

GAN

JOHN ROBERTS,

Neu *Sion Lleyn.*

Os ein daearol-dŷ o'r babell hon a ddattodir---y mae i ni dŷ, nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd. PAUL.

Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr ARGLWYDD, o hyn allan, medd yr yspryd, fel y gorphwysont oddi wrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt. IOAN.

I'r saint rhagorfraint i gyd, ol i iddynt,
Eu llwyddiant a'u hadfyd;
Gwen y nef a gant hefyd,
Ac yn y bedd, gwyn eu byd.

Caerfyrddin, Argraffwyd gan J. EVANS.—1804.

Ll 4445 X205 310412

# *MARWNAD, &c.*

1 PA fodd y ffurfiaf fy ngalarnad,
Pwy am dyſg i redeg pin?
Pe cawn dafod, iaith a meddwl;
Ni wnai'r cwbl ond yn brin,
Seren fawr o'n gwydd ymguddiodd,
Haul fachludodd hanner dydd,
ROBERT ROBERTS roed mewn amdo,
Mawr yw ſwm yr wylo fydd.

2 Gwr a ga'dd ei ddwyn i'r arf-dŷ,
Ac fe'i gwiſgwyd â phob dawn,
Fe'i prydferthwyd â graſuſau,
Fe'i goreurwyd yno'n llawn;
Allan daeth â'i gledd' a'i wregis,
Llurig gref a'i darian fawr,
Saethau heb rif, a'i fwa anelog,
I darfu llidiog dorf y llawr.

3 Tan ei draed daear-gryn ydoedd,
Wrth ei lais y duai'r nef,
Ai elwaith yn ddiſgleirdeb goleu,
Wrth ei ſwn ſoniarus ef;
Taran oedd ei weinidogaeth,
Mellt yn bloeddio, Wele ni!
Tân yn ennyn ac yn llosgi
Hen lochefau fu mewn bri.

4 Canwyll fawr a llufern oleu,
Yn chwilio holl lochefau'r tŷ,
Ac awdurdod anorchfygol,
Rymmus gadarn oddi fry,

Chwilio'r galon wag ragrithiol,
Olrhain holl grefyddau'r cnawd;
Datguddio eu bod yng wyddfod Duwdod,
Yn dra diddim a thlawd.

5 Weithiau trwſt taranau cryfion,
At arferion plant y llawr,
Nes bod torf yn wyneb-laſu,
O flaen mellt y Bibl mawr;
Dull y farn oedd yn ei eiriau,
Barnwr wedi ymwiſgo â llid,
Ei yſbrydol ddarluniadau,
Lyngcai i mewn y bobl i gyd.

6 Ef yn chwys a'r dorf yn ddagrau,
A ſwn telynau yn ei lef,
Er taranau, bu trueiniaid,
Mewn gwên yn yfed gwîn y nef;
Dilyn llwybr y dioddefiadau,
Canfod athrawiaethau hedd,
Arlwyo'r bwrdd a threfnu ſeigiau,
Heb ddim yn eiſiau yn y wledd.

7 How! 'n arafach fy awenydd,
Mae Seion yn alarus iawn,
Loes a'i daliodd yn ei gwendid,
Hyn a dduodd ei phrydnhawn,
Cof o'i gariad a'i hawddgarwch,
Ei yſbryd mwyn a'i eiriau'n dân;
Sydd yn awr yn creu wylofain,
A fu gynt yn emyn cân.

8 Troed yr organ yn alarnad,
A'r delyn yn och'neidiai chwith,
Iſelwyd trwſt y nablau hyfryd,
A'r pibellau yn ein plith;
Daeth y Fantell ddu dros *Arfon*,
*Lleyn* ac *Eiſion*, *Môn* a mwy,

Gwynedd a Deheubarth Cymry,
Sydd yn cyd-alaru â hwy.

9 Seion ſydd mewn iſelderau,
A'i blin drallodau'n amlhau,
Ofni am ei breintiau hyfryd,
A bod eu ſymmud yn neſau;
Ofni gwg ei hanwyl Briod,
Seion ſy'n y trallod hyn,
A cholli gweinidogion bywyd,
A'i troes hefyd yn dra ſyn.

10 Colli'r ſer o'r uchelderau,
Diffodd y canwyllau mawr,
Colli eryrod, cryf adenydd,
Craff eu llygaid ar y llawr;
Gwyr oedd yn byddino'r lluoedd,
Yn blaenu y rhyſeloedd ſydd,
Wedi gado'r maes a'r arfau,
A diangc o'r peiriannau'n rhydd.

11 Pa le mae ROWLANDS hen a hynod,
A WILLIAMS, y caniedydd gwych,
DAFYDD MORRIS, *Nedd*, o'u mawredd,
Weithwyr rhyfedd aeth i'r rhych;
Cedyrn cryfion, mawr eu rhinwedd,
O Dde' a Gogledd aeth i bant,
Wylo'n llaith eu mhaith golledion,
Yn awr mae Seion wrth ei phlant.

12 Seion, Seion, gad dy wylo,
Cod dy olygon etto i'r lan,
Gwel fod ARGLWYDD y cynhaua',
DUW'r JEHOFA yn dy ran;
Galw i'r maes am ffyddlon weithwyr,
Gweithwyr, nid ſegurwyr gau,
Mae ei gariad fel y cefnfor
Mawr, a'i dryſor yn ddidrai,

13 Gwel y gweithwyr diwyd ffyddlon,
Yn myn'd o'r maes yn onest iawn,
Gado eu dillad, gwaith a'u harfau,
Wrth droi'u cefnau y prydnhawn;
Rhoed y rhai'n yn nhŷ *Libanus*,
Tariannau fil, mae'n hyspys hyn,
Nid y'nt hwy ond anghyfaddas,
I'w dwyn i'r palas s'y ar y bryn.

14 Moes fy awenydd, tyn ddarluniad,
Gwedd a dull ei enaid ef,
Ei ysbryd hardd a'i ddoniau bywiog,
Tra'n Weinidog dan y nef;
Ar yr aden trwy'r cymhylau,
I bellder uwch y gwibiog ser,
Ei wisg a'i wedd mewn sanctaidd burdeb,
Yn hyfryd bresennoldeb Ner.

15 Egwan gorph gofidus afiach,
Ga'dd ROBERT ROBERTS, mawr ei fri,
Gwr ymladdodd yn y brwydrau,
Ac a nofiodd rym y lli';
Eglwys Crist oedd yn ei galon,
Ac ynteu yn ei chalon hi,
Mewn cwlwm cadarn annorchfygol,
Yn y Gwr fu ar Galfari.

16 Astudiwr mawr yr athrawiaethau,
Difein' o ran ei ddoniau oedd ef,
Yn llewyrch gwaith y difeinyddion,
Y gwelai yn uwch ddirgelion nef;
Agorwr têg ar y damhegion,
Dattodwr tynion glymmau twyll,
Ca'dd o niwl y cudd yn oleu,
A'u trin y byddai trwy iawn bwyll.

17 Nid yn ysgol fwyn y *Fenni*,
*Cambridge* na *Rhydychen* bell,

Trwy Iesu mawr yr addfwyn Brophwyd,
Fe'i addysgwyd yn fil gwell;
Dysgodd yn y peiriau mawrion,
Faith ddirgelion teyrnas grâs,
Yn wyneb Iawn, a chyflawn haeddiant,
Fod pur faddeuant yn ei flas.

18 Telyn hardd a'i thannau'n dynion,
Miwsic nefoedd oedd ei ddawn,
Tannau mawrion yr athrawiaeth,
A'r wir ddisgyblaeth ganddo'n llawn;
Ei sylfaen ydoedd Dwyfol Hanfod,
Anfeidrol Fod yn Drindod glân;
Un yw'r Hanfod anwahanol,
Ond yn bersonol mae gwahan.

19 Person Dwyfol yn yr Hanfod,
Ddaeth â'r Dyndod atto ei hun,
Llè mae'n goronog ein gwir anian,
Nid ar wahan, ond yn un;
Hwn oedd llawnder ei destynau,
A'i athrawiaethau goleu i gyd,
Cyngor hedd, cyfammod cadarn,
Arfaeth gre' cyn bore'r byd.

20 A'r brynedigaeth llawn o berlau,
Aur a gemmau sy' ynddi i gyd,
Dyndod yn boddloni Duwdod,
Dyndod yn dyhuddo'r llid;
Gwel'd i mewn i ragluniaethau,
Canfod drwy'r dyfnderau maith,
Ddarpariaeth Iesu dros ei Eglwys,
I'w nherthu a'i thywys ar ei thaith.

21 Dyma rai o'r athrawiaethau,
A gariodd yn y goleu gynt,
Hyfryd sain y rhai'n a'u rhinwedd,
Draethai'n rhyfedd ar ei hynt;

Ca'dd Cymru faith a Lloegr hefyd,
Llundain draw, ac aml dref,
Y pwerau grymmus dwyfol,
Annorchfygol lais y nef.

22 Llawn oedd ef o gariad Iefu,
Cariad yn derchafu'n gân,
Mewn clodforedd gydfain hyfryd,
I'r Tad, a'r Mab, a'r Yfpryd Glân;
Bendigedig! yn barchedig,
Oedd ei unig fiwfic ef,
Doed y ddaear yn fylweddol,
I foli yn unol fawl y nef.

23 Yr arfaeth gadarn, graff ei hergyd,
A wyddai'r funud iddo fe
Gael ei ddwyn o'i faith gyftuddiau,
I wych anneddau iach y ne',
Pan ddaeth yr awr a'r cerbyd tanllyd,
Fe'i gwahanwyd â'r fath rym,
Oddi wrth frodyr, gwraig a theulu,
Nes bod pawb heb allu dim.

24 Rhoed ei gorph yn meddrod *Clynnog*,
Clyd odidog yw ei dŷ,
Melus iawn fydd hûn y gweithiwr,
Nes del cynnwr oddi fry,
Galwad gwych yr udgorn hynod,
A rydd ollyngod iddo o'r llaid,
Corph ac enaid yn anfarwol,
A'i foliant bythol yn ddibaid.

25 Pa ham nad yw ei yfpryd heddyw,
Yn ei ddelw hardd a'i lun?
Ond ei fod yn fyrdd mwy tanllyd,
Nâg y gwelwyd gan un dyn,

Gweld heb frychau yn ei lygaid,
Gweld y cyfan oll heb len,
Pwy all ddweud nad yw yn canfod,
O ddyfnder byd i uwchder nen.

26 Caru Crift yr ydoedd yma,
Credu ei fod ef yn un mawr,
Ewyllyfio bod yn berffaith,
Cyflawn berffaith yw e'n awr,
Gwel'd, mae'n eglur, fel y credodd,
Ni cha'dd ffydd ei fiommi erioed,
Y tir a gredodd mewn addewid,
Sydd ganddo'n hyfryd dan ei droed.

DIWEDD.

---

O melus yw'r llawenydd fydd,
Yn fynych yn fy enaid prudd;
Wrth feddwl am y Brodyr cu,
A aeth i'r fro nefolaidd fry.

Gadawfont eu daearol dŷ,
Ac aethant trwy'r Iorddonen ddu;
At Iefu cu i Seion fryn,
Lle'r oedd eu calon hwy cyn hyn.

David Price his Book 1804

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES